Childnet International

# Ditectif Digihwyaden

*Gan*
**Lindsay Buck**

*Lluniau gan*
**Stephanie Cartwright**



© Hawlfraint Childnet 2020. Cedwir pob hawl.

Cyhoeddwyd am y tro cyntaf yn 2020 gan Childnet International.

ISBN 978-0-9573506-6-3

Ni cheir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, na'i storio mewn system adalw, na'i drosglwyddo ar unrhyw ffurf nac mewn unrhyw fodd, electronig, mecanyddol, llungopi, recordiad neu fel arall, heb gael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan berchennog yr hawlfraint, sef Childnet.

Testun gan Lindsay Buck, Childnet, 2020.


Gwaith dylunio a lluniau gan Stephanie Cartwright, 2020.

Mae hawliau moesol yr awdur a'r darlunydd wedi cael eu harddel.

Diolch i fontdiner.com am gael defnyddio'r ffurfdeip ar y clawr.

Childnet International

# Ditectif Digihwyaden!



*Gan* **Lindsay Buck**
*Lluniau gan* **Stephanie Cartwright**



Roedd yr ysgol bron ar ben am y flwyddyn, ac roedd gan Digihwyaden un prosiect ar ôl i'w wneud.



Roedd Mrs Gŵydd wedi gofyn i'r dosbarth gasglu ffeithiau am anifeiliaid sy'n byw yn y goedwig.

Roedd Digihwyaden yn gwybod bod gan ei rieni ffrindiau yn y goedwig, ond doedd e erioed wedi bod yno.

Roedd coedwigoedd yn ddirgelwch!



Ond, roedd yn rhaid iddo frysio! Roedd Cath_wirion a Llwynog_pêl-droed ar ei dîm yn y gêm Buarth yr Anifeiliaid ac roedden nhw o fewn trwch blewyn i ennill...

Gallai chwarae cyn amser gwely, dim ond iddo wneud y gwaith yma'n gyflym.



Chwiliodd am anifeiliaid y goedwig ar-lein.

Roedd nifer o wefannau ar gael, ond roedd un llun wedi tynnu ei sylw yn syth...

“Perffaith!” meddai’n hapus.





Roedd Digihwyaden wedi darganfod mai cyrn ceirw ydy'r rhan o unrhyw anifail sy'n tyfu gyflymaf yn y byd, ac unwaith maen nhw'n dechrau tyfu, dydyn nhw ddim yn stopio.

Mae colomennod yn teithio am filoedd o filltiroedd pan fyddan nhw'n mudo, ac maen nhw hapusaf mewn tywydd oer.






Mae pob draig yn gallu hedfan ac anadlu tân. Maen nhw'n byw mewn coedwigoedd mawr, tywyll.

“Mae hynny’n anhygoel!” meddai Digihwyaden.

Edrychodd ar y cloc… mi fyddai Cath_wirion yn dal i fod ar-lein.

Amser chwarae gêm!



Yn nes ymlaen yn ystod yr wythnos, pan ddychwelodd Mrs Gŵydd ei waith, cafodd ei synnu.

“O na!” ebychodd. “Tybed beth wnes i o’i le?”



Cyrhaeddodd gartref, a'i ben yn ei blu. Ond cododd ei galon ar unwaith pan welodd fod Y_Dylluan_Ddoeth yn dod draw.

Roedd yn ffrind da, ac roedd wedi helpu Digihwyaden o'r blaen.



“Dydw i ddim yn deall,” meddai Digihwyaden, gan ddangos ei waith iddo.

“Roedd yna lawer o wybodaeth a lluniau gwych ar y wefan nes i ei dewis. Roeddwn i’n meddwl mai ffeithiau oedden nhw i gyd. Sut alla i ddweud y gwahaniaeth?”



“Mae rhywbeth yn ffaith, dim ond os wyt ti’n gallu ei brofi, neu ddangos ei fod yn wir,” esboniodd Y_Dylluan_Ddoeth, “fel y ffaith fod gan bob aderyn big. Rydyn ni’n gallu gweld hynny; rydyn ni’n gwybod ei fod yn wir.”



“Felly, petawn i’n dweud bod gan bob aderyn… ym… wyth coes, wel dydy hynny ddim yn ffaith. Rydw i’n gwybod nad yw hynny’n wir, oherwydd rydw i yn un!” atebodd Digihwyaden.

“Yn hollol!” meddai Y_Dylluan_Ddoeth.



“Hefyd, mae’n bosib mai dim ond syniadau pobl ydy’r pethau rwyt ti’n eu darllen neu’n eu gweld ar-lein. Fe allwn i ddweud ar y rhyngrwyd mai Ystlum.dewr ydy’r archarwr gorau, ond efallai dy fod di’n meddwl bod Hwyaden.hyf yn well! Allwn ni ddim dweud pwy sy’n iawn neu beidio; oherwydd ein barn ni - neu sut rydyn ni’n teimlo ydy hynny.”


"Er mwyn gwirio a ydy rhywbeth yn ffaith, mae'n rhaid bod yn dditectif, Digihwyaden, a chwilio am wybodaeth, neu gliwiau, mewn llefydd eraill hefyd."




Neidiodd Digihwyaden yn llawn brwdfrydedd, "Ditectif Digihwyaden, yn barod i weithio!"

Yn sydyn, stopiodd yn stond, “Ond... ble arall ydyn ni’n mynd i chwilio am wybodaeth?”

“Rydw i am ddysgu tri pheth y galli di eu gwneud, i dy helpu i benderfynu a ydy’r pethau rwyt ti wedi dod ar eu traws ar y rhyngrwyd yn ffeithiau neu beidio. Fe wnawn ni ddefnyddio un gwahanol ar gyfer pob anifail yn y goedwig,” esboniodd Y_Dylluan_Ddoeth.



“Fe wnawn ni gael galwad fideo gydag un o’r anifeiliaid, fe wnawn ni gael sgwrs gyda dy rieni, ac fe wnawn ni edrych ar wefan arall hefyd.”





“Mae hyn am fod yn anhygoel!” bloeddiodd Digihwyaden. “Plîs gawn ni ffonio’r ddraig yn gyntaf? Plîîîîîs!”

“Fe wnawn ni gadw’r ddraig tan nes ymlaen. Fe wnawn ni ffonio fy ffrind, Carw-Mawr i ddechrau; does neb yn gwybod mwy am fod yn garw na charw ei hun.”



Cysylltodd yr alwad ac ymddangosodd hydd ysblennydd ar y sgrin. Ond, roedd ei gyrn yn eithaf annisgwyl...




“Helo”, meddai Digihwyaden gan godi ei law. “Mae’r rhyngrwyd yn dweud bod eich cyrn yn tyfu’n gyflym iawn, a byth yn stopio tyfu. Ond nawr, dydw i ddim mor siŵr.”

“Mae ein cyrn ni’n tyfu’n gyflym iawn,” meddai Carw-Mawr yn falch.  “Mae hynny’n wir. Ond, rydyn ni’n eu colli yn y gwanwyn, ac maen nhw’n tyfu eto yn yr haf.”

"Beth… Maen nhw'n dod… I FFWRDD?" meddai Digihwyaden, gan droi'n welw.

"Mae'n iawn," chwarddodd Carw-Mawr, "maen nhw i fod i ddod i ffwrdd, a dydy hyn ddim yn brifo o gwbl."



Amser te, dyma nhw'n dechrau trafod y prosiect eto.

"Mami Hwyaden, allwch chi ddweud unrhyw beth wrthyn ni am golomennod?" gofynnodd Y_Dylluan_Ddoeth.



"Rydw i'n gwybod bod colomennod yn wych am hedfan. Mi fydd ein ffrindiau'n meddwl am hedfan i ffwrdd unwaith eto cyn bo hir."

"I ble?" holodd Digihwyaden. "Mae'r rhyngrwyd yn dweud eu bod nhw'n hoffi llefydd oer."



“Dydy pob colomen ddim yr un fath, ond mae rhai yn hedfan yn bell iawn, iawn i fynd i lefydd cynhesach, ac mae’r mudo yma’n para misoedd. O, mae ganddyn nhw straeon...” atebodd Mami Hwyaden yn hiraethus.



“Reit ta, Dditectif, beth wyt ti wedi’i ddysgu hyd yma?” holodd Y_Dylluan_Ddoeth.

Astudiodd Digihwyaden ei lyfr nodiadau, “Er mwyn gwirio’r wybodaeth rydych chi’n ei chael ar-lein, rhaid i chi siarad am yr wybodaeth ag oedolyn.  Efallai eich bod yn adnabod arbenigwr a all helpu hefyd!”





“Da iawn,” atebodd Y_Dylluan_Ddoeth. “Dim ond y ddraig sydd ar ôl.”

“Oooo, alla i ddim aros!” meddai Digihwyaden, gan neidio’n llawn cyffro.

“Cyn dechrau, mae’n ddefnyddiol gofyn ambell gwestiwn am yr hyn rwyt ti wedi’i ddarganfod ar-lein.  Efallai bod yna bethau rwyt ti’n eu gwybod yn barod a all helpu. Mae ditectif da yn meddwl yn ofalus iawn am y cliwiau, er mwyn penderfynu beth ydy’r ffeithiau. Beth wyt ti’n ei wybod am ddreigiau hyd yn hyn?” gofynnodd Y_Dylluan_Ddoeth.



“Roedd y wefan yn dweud eu bod yn gallu hedfan ac anadlu tân,” atebodd Digihwyaden.

“Wyt ti, neu unrhyw un rwyt ti’n ei adnabod, erioed wedi gweld draig?” gofynnodd Y_Dylluan_Ddoeth yn garedig.

“Rydw i wedi gweld draig ar faner o’r blaen, ond dim un sy’n gallu hedfan... dydw i ddim yn meddwl bod unrhyw un rydw i’n ei adnabod wedi gweld un o'r rheiny.”



“Wyt ti wedi gweld unrhyw luniau, fideos neu straeon newyddion eraill am ddreigiau - yn dy lyfrau, ar y teledu, neu unrhyw le ar-lein?”





“Nes i wylio fideo am ddreigiau Comodo, ond madfallod ydy'r rhain mewn gwirionedd - y rhai mwyaf yn y byd! Mae yna ddreigiau sy’n anadlu tân yn fy llyfrau straeon amser gwely, ond mae yna lawer o bethau eraill sydd wedi cael eu dyfeisio yn y straeon hynny hefyd.”

Eisteddodd Digihwyaden yn dawel, gan feddwl am yr holl gliwiau.  Ymhen ychydig, ochneidiodd, “rydw i’n meddwl efallai nad ydy dreigiau’n bodoli go iawn.”

“Mae arna’ i ofn nad ydyn nhw,” meddai Y_Dylluan_Ddoeth yn garedig.  “Doedd yr wybodaeth y cefaist am ddreigiau ddim yn wir. Dim ond mewn llyfrau straeon maen nhw’n bodoli.  Ond maen nhw’n straeon ardderchog!”






Chwiliodd Y_Dylluan_Ddoeth a Digihwyaden ar-lein am anifail gwahanol i orffen ei brosiect.  Roedd gan wefan Buarth yr Anifeiliaid lawer o ffeithiau diddorol am y goedwig, ac edrychodd Digihwyaden ar wefan roedd Mrs Gŵydd wedi'i dangos iddyn nhw hefyd.



Roedd y plant yn llawn cyffro ar ddiwrnod olaf y tymor. Roedd Mrs Gŵydd wedi trefnu picnic yn arbennig iddyn nhw...



... gydag ysgol y goedwig!



## Siaradwch am y stori

1. Pa dri pheth wnaeth Y_Dylluan_Ddoeth ddysgu Digihwyaden i'w gwneud, i wirio'r wybodaeth roedd wedi'i chael?

2. Penderfynwch a ydy'r brawddegau hyn yn ffaith, yn farn neu'n anghywir.
   Mae gan hwyaden blu. Gall hwyaden nyddu gwe.
   Mae hwyaden yn hardd.
   Allwch chi feddwl am enghreifftiau eich hun hefyd?

3. Enwch bum oedolyn rydych chi'n eu hadnabod ac yn ymddiried ynddyn nhw, a allai eich helpu chi gydag unrhyw broblemau ar-lein.

4. Petai unrhyw beth ar-lein yn peri dryswch i chi, yn eich poeni chi neu'n gwneud i chi deimlo'n ypset, sut byddech chi'n gofyn am help? Beth allech chi ei ddweud?

5. Allwch chi ddefnyddio'r rhyngrwyd i gael gwybodaeth am anifail arall o'r goedwig? Cofiwch am gyngor Y_Dylluan_Ddoeth a gwirio eich ffeithiau.

Atebion
C1: (Gofyn i arbenigwr, gofyn i oedolyn, gwirio ffynonellau eraill - gwefannau / llyfrau ffeithiol / rhaglenni dogfen)
C2: Ffaith. Anghywir. Barn.

## I rieni a gofalwyr

### Cadw plant yn ddiogel ar-lein

Mae plant wrth eu bodd yn defnyddio technoleg ac maen nhw'n dysgu canfod eu ffordd drwy wefannau, apiau, gemau ar-lein, consolau, a thechnoleg sgrin-gyffwrdd, ee tabledi a ffonau clyfar, yn ifanc iawn. Mae angen cefnogaeth ar blant yn y meysydd hyn, er mwyn cael y gorau o ddefnyddio'r rhyngrwyd yn iawn o'r cychwyn cyntaf.

### Ble mae dechrau arni?

Y ffordd orau i gadw eich teulu'n ddiogel ar-lein, a deall sut mae eich plant yn defnyddio'r rhyngrwyd, ydy drwy ddefnyddio'r rhyngrwyd gyda'ch gilydd. Byddwch yn gadarnhaol a chynnwys y technolegau mae eich plant yn mwynhau eu defnyddio, gan chwilio am unrhyw nodweddion diogelwch a allai fod ar gael.

### A ddylwn i gyflwyno unrhyw reolau?

Mae creu cytundeb teulu yn ffordd ddefnyddiol o sefydlu eich disgwyliadau ynghylch gweithgareddau ar-lein. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi feddwl am hyn:

• Defnyddio apiau, gemau a chynnwys arall (ee fideos) sy'n briodol i oedran.
• Gyda phwy mae eich plentyn yn siarad, yn chwarae â nhw ac yn gallu cyfathrebu â nhw ar-lein.
• Faint o amser mae eich plentyn yn ei dreulio ar-lein, a sut mae cael cydbwysedd â gweithgareddau all-lein.
• Ymddygiad cadarnhaol rydych chi'n dymuno ei annog.

Cofiwch, mae beth sy'n iawn a ddim yn iawn all-lein hefyd yn iawn a ddim yn iawn ar-lein.

### Sut gallaf i oruchwylio fy mhlentyn?

Mae modd goruchwylio dyfeisiau cludadwy, ee ffonau clyfar, consolau a thabledi a'u defnyddio ble gallwch eu gweld. Hefyd, mae rhoi eich cyfrifiadur neu liniadur yn un o'r ystafelloedd prysuraf yn y tŷ yn golygu ei bod hi'n haws i chi gadw llygaid ar sut mae eich plentyn yn defnyddio technoleg.

## Faint o amser sy’n ormod?

Mae modd defnyddio rhai strategaethau i helpu i reoli faint o amser mae rhywun yn ei dreulio ar-lein, fel cytuno ar gyfyngiad amser neu ddefnyddio adnoddau cyfyngu ar amser, dynodi amser i ddefnyddio’r rhyngrwyd gyda’ch gilydd bob wythnos, neu dynnu dyfeisiau cludadwy o ystafell wely eich plentyn gyda’r nos, er mwyn osgoi blinder.

## Oes yna adnoddau i helpu?

Bydd eich darparwr gwasanaethau rhyngrwyd a’ch cwmni ffôn symudol yn darparu hidlyddion am ddim i chi i helpu i atal cynnwys nad yw’n briodol i oedran ar gyfer plant. Mae gwefannau gwneuthurwyr dyfeisiau (ee consolau gemau) yn amlinellu’r dulliau rheoli sydd ar gael i chi hefyd. Mae’n bosib fod peiriannau chwilio yn cynnwys modd ‘chwilio diogel’ y gallwch ei roi ar waith a’i gloi. Mae rheolaeth gan rieni yn help mawr, ond dim dyma’r ateb cyflawn. Mae hyn yn gweithio’n well ar y cyd â goruchwyliaeth ac ymgysylltu, i helpu eich plant i ddeall sut mae cadw’n ddiogel ar-lein.

## Pa gyngor gallaf i ei roi i fy mhlentyn?

Addysg ydy’r adnodd gorau i blentyn, felly trafodwch bwysigrwydd dweud wrth oedolyn ar unwaith os bydd rhywun neu rywbeth yn gwneud iddo deimlo’n ypset ar-lein. Dyma rai strategaethau eraill y gallwch eu rhannu â’ch plentyn er mwyn ei helpu i ddelio â chynnwys neu gyswllt digroeso: diffodd y sgrin, cymryd saib neu adael yr ap/gêm, neu droi’r ddyfais drosodd a’i rhoi i lawr. Mae hefyd yn bwysig bod eich plentyn yn sylweddoli efallai nad ydy defnyddwyr eraill y rhyngrwyd yn pwy maen nhw’n ei ddweud ydyn nhw, ac mai dieithriaid ydy ‘ffrindiau’ maen nhw’n ei wneud ar-lein, felly dylid cadw ei holl wybodaeth bersonol yn ddiogel.

## Pa gemau y mae'n iawn i fy mhlentyn eu chwarae?

Mae nifer o wahanol gemau a phrofiadau chwarae ar-lein, ee cyfrifiaduron, consolau, gemau ar y rhyngrwyd ac apiau. Mae'n bosib mai drwy chwarae gemau y bydd eich plentyn yn cael profiad o fywyd ar-lein am y tro cyntaf. Ond, mae rhai gemau ar gyfer cynulleidfaoedd hŷn, ac maen nhw'n cynnwys iaith, delweddau a themâu anaddas i blant. Felly, mae'n bwysig bod y gemau mae eich plant yn eu chwarae yn briodol i'w hoedran, ac mae hynny'n dibynnu ar gynnwys y gêm.

Gall chwarae gemau eich hun fod yn hwyl, a bydd hefyd yn eich galluogi chi i weld pa nodweddion diogelwch sydd ar gael, fel rhoi gwybod i gymedrolwr, ac yn eich helpu i weld a oes hysbysebion yn cael eu dangos ar apiau, neu a ydyn nhw'n caniatáu prynu pethau ar apiau. Mae modd analluogi prynu pethau ar apiau ar nifer o ddyfeisiau, drwy fynd i'r gosodiadau.

## Ble gallaf i adrodd am rywbeth?

Pan fyddwch yn cyflwyno adroddiad ar-lein, chwiliwch am y gwasanaethau cymedroli, neu'r nodweddion diogelwch/help, yn yr ap, y gêm neu ar y wefan. Os oes gennych chi amheuon am ymddygiad eraill ar-lein, mae modd i chi gyflwyno adroddiadau i CEOP. Mae modd adrodd am gynnwys troseddol ar-lein i'r IWF. I gael gwybodaeth am sut mae rhoi gwybod am gynnwys niweidiol ar-lein, ac i gael rhagor o gymorth, ewch i www.reportharmfulcontent.com.

Ewch i **childnet.com/parents-and-carers** i weld y cyngor yn llawn.

**Childnet**

Nod Childnet ydy gweithio mewn partneriaeth ag eraill o amgylch y byd i helpu i wneud y rhyngrwyd yn lle gwych a diogel i blant.


Mae Childnet yn elusen yn y DU sy'n darparu gweithgareddau cyfranogiad ieuenctid, addysg a pholisïau. Mae Childnet yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc 3-18 oed bob wythnos, yn ogystal â rhieni, gofalwyr, athrawon a gweithwyr proffesiynol, i glywed am eu profiadau go iawn ar-lein a'r pethau cadarnhaol maen nhw'n eu gwneud, yn ogystal â rhannu cyngor am ddiogelwch.
Mae Childnet wedi parhau i fod ar flaen y gad gyda'r tueddiadau diweddaraf drwy weithio'n uniongyrchol gyda miloedd o blant a phobl ifanc bob blwyddyn, ac mae gan yr elusen adnoddau arloesol i blant a phobl ifanc 3-18 oed, rhieni, gofalwyr ac athrawon, a rhaglenni diogelwch ar-lein sy'n grymuso disgyblion.

Mae Childnet yn un o'r tair elusen sy'n rhan o'r UK Safer Internet Centre, sy'n cydlynu Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel, sy'n cyrraedd miliynau o blant yn y Deyrnas Unedig bob blwyddyn.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **www.childnet.com.**

**UK Safer Internet Centre**

Mae Childnet International yn bartner yn UK Safer Internet Centre gyda'r Internet Watch Foundation a South West Grid for Learning. Mae'r prosiect hwn yn cael ei ariannu ar y cyd gan Gyfleuster Cysylltu Ewrop yr Undeb Ewropeaidd. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **www.saferinternet.org.uk.**



Fyddech chi'n gallu credu eich llygaid pe byddech chi'n dod wyneb yn wyneb â draig yn y goedwig?  Mae Digihwyaden yn darganfod ffeithiau anhygoel ar-lein am anifeiliaid, a doedd e ddim yn disgwyl darganfod y gallai fod angen iddo wirio'r ffeithiau hyn. Gall chwilio am wybodaeth ar y rhyngrwyd fod yn anodd, felly mae Y_Dylluan_Ddoeth yn ei helpu i roi trefn ar bopeth.

**www.childnet.com**

Childnet International

UK Safer Internet Centre

Co-financed by the Connecting Europe Facility of the European Union

ISBN 978-0-9573506-6-3